

Gweddi o ganol arswyd gan y Tad Richard Henrick

Cyfieithiwyd y weddi gan Denzil I John

Oes, mae 'na ofn.

Oes mae 'na ynysu.

Oes mae 'na brynu gorffwyll,

Oes mae 'na salwch.

Oes mae 'na hyd yn oed farwolaeth.

Ond, dywedir eu bod yn Wuhan, hyd yn oed ar ôl blynyddoedd o sŵn yn medru clywed yr adar eto.

Dywedir ar ôl ond ychydig wythnosau o lonyddwch, nad yw'r awyr yn llawn o fwg trwchus, ond yn llwydlas glir.

Dywedir bod yn strydoedd Assisi

bobl yn canu i'w gilydd

ar draws sgwariau gwag

yn cadw eu ffenestri ar agor

fel bod y sawl sydd yn unig

yn medru clywed y teuluoedd o'u cwmpas.

Dywedir bod gwesty yng Ngorllewin Iwerddon

yn cynnig prydau am ddim

a'u cludo i gartrefi'r sawl sy'n gaeth i'w tai.

Heddiw mae gwraig ifanc rwy'n ei hadnabod

Yn brysur yn dosbarthu taflen fechan gyda'i rhif ffôn

ar draws ei chymdogaeth,

fel bod yr oedrannus yn medru galw ar rhywun.

Heddiw mae Eglwysi, Synagogau, Mosgiau a Themlau

yn paratoi i groesawu

a chysgodi'r digartref, y claf a'r blinedig;

Ar draws y byd mae pobl yn arafu ac yn myfyrio,

ar draws y byd bydd pobl yn edrych ar eu cymdogion mewn ffyrdd newydd,

ar draws y byd mae pobl yn deffro i realiti newydd,

at ba mor fawr ydym mewn gwirionedd,

at ba mor wan ydym o ddifrif,

at ddiffyg rheolaeth sydd genym

i'r hyn sydd wir o ddifrif

y modd i garu.

Felly cofiwn a gweddiwn,

oes mae yna ofn, ond nid oes rhaid meithrin casineb,

oes mae yna ynysu, ond nid oes rhaid i ni ganiatau unigrwydd.
oes mae yna brynu gorffwyll, ond nid oes rhaid cael cybydd-dod,
oes, mae yna salwch, ond nid oes rhaid cael clefyd ysbrydol
oes mae yna farwolaeth, ond gellir o hyd gael adnewyddiad o gariad.
Deffrowch i'r dewis sydd gennych o sut mae byw.

Heddiw, anadlwch,
gwrandewch tu hwnt i grochlefain y panig
ar yr adar yn canu eto.

Mae'r awyr yn clirio,
y gwanwyn yn dod
a byddwn o hyd yn cael ein cwmpasu gan gariad.
Agorwch ffenestri eich enaid
ac er na fyddwch yn medru cyffwrdd ar draws y sgwar gwag

Canwch.

Gwthiwn tu hwnt i ofn a darganfod gobaith eto. Amen

Arglwydd Iesu, gofynnwn i ti amddiffyn pawb yn erbyn ymlediad Coronafeirws.
Rwyd ti'n rymus ac yn llawn trugaredd. Dyma ein gweddi fel y Salmydd:

Dangos drugaredd ata i, O Dduw,
dangos drugaredd ata i!
Dw i'n troi atat ti am loches.
Dw i am guddio dan dy adenydd
nes bydd y storm yma wedi mynd heibio. (Salm 57:1)

Tywysog Tangnefedd, rydyn ni'n cofio am y bobl sy'n byw lle mae'r haint ar ei
ffyrnicaf ar hyn o bryd, llefydd fel yr Eidal sydd wedi gweld dioddefaint mawr.
Duw pob cysur a Cynghorwr da, gweddiwn dros bawb sy'n galaru heddiw ar ôl
colli annwyliaid. Gweddiwn y byddant yn derbyn dy gysur a'th gymdeithas y neu
dioddefaint a'th obaith di y neu hanobaith.

Gweddiwn dros y rhai sydd wedi ynysu eu hunain, y byddant yn gallu tystio
i'th bresenoldeb y neu hunigrwydd, dy heddwch pan fo'i meddyliau'n corddi, a
dy amynedd di yn y disgwyl. Tywysog Tangnefedd rwyd ti'n rymus ac yn llawn
trugaredd. Dyma ein gweddi fel y Salmydd:

Rydyn ni'n enwi o dy flaen di bawb sy'n fregys ac yn ofni – pobl sy'n sâl yn
gorfforol neu sydd â phroblemau iechyd meddwl.

Rydym yn pwysu ar dy wirioneddau fel y gwnaeth Cristnogion yr eglwys fore: 'Mae wedi'n hachub ni y tro yma, a bydd yn ein hachub ni eto. A dŷn ni'n gwbl hyderus y bydd yn dal ati i wneud hynny' (2 Corinthiaid 1:10)

Ti yw'r Duw sy'n dod â iachad. Rydyn ni'n cyflwyno ein meddygon a'n gofalwyr iechyd sy'n delio â'r argyfwng yma. Rho nerth iddyn nhw pan maen nhw'n blino, dirnadaeth wrth wneud diagnosis a thrugaredd dros y rhai maen nhw'n gofalu amdanynt. Helpa'r gwyddonwyr sy'n ymchwilio'n ddiflino i geisio deall a brwydro'r ferriws.

Rydyn ni'n gweddio dros ein arweinwyr holl lywodraethau'r byd. Gweddiwn yn arbennig dros ein harweinwyr lleol – penaethiaid ysbytai, ysgolion a sefydliadau eraill. Gofynnwn i ti eu donio â doethineb, ffydd a nerth tu hwnt i'w nerth eu hunain i arwain sefydliadau drwy'r cyfnod anodd yma. Gweddiwn gyda'r Salmydd:

Mae Duw yn ein cadw ni'n saff ac yn rhoi nerth i ni.
Mae e bob amser yna i'n helpu pan mae trafferthion.
Felly fydd gynnwng ni ddim ofn (Salm 46:1-2)

- Helpa ni i bywso ar dy gariad di – cariad sy'n gwthio allan bob ofn.
- Help ani fel eglwys ac eglwysi i fod yn bobl gobaith yn y cyfnod yma gan wasanaethu ein cymdogion a'n cymuned
- Diolch am ymateb rhyfeddol pobl i estyn llaw a dangos cariad a charedigrwydd yn y cyfnod yma
- Defnyddia'r amser yma i'n newid ni, i dreulio amser gyda ti. Rwyt ti'n Dduw pwerus sy'n dod â daioni allan o'r sefyllfaoedd gwaethaf posib, felly gwna hynny nawr.

'Boed i'r ARGLWYDD eich bendithio chi
a'ch amddiffyn chi.

Boed i'r ARGLWYDD wenu'n garedig arnoch chi,
a bod yn hael tuag atoch chi.

Boed i'r ARGLWYDD fod yn dda atoch chi,
a rhoi heddwch i chi.' (Numeri 6:24-26)

Yn enw Iesu Grist sy'n teyrnasu yn y nefoedd gofnnwn hyn oll

Amen